Y Pethau Bychain

Dyma'r pethau bychain sy'n helpu yn y tŷ,
Yn stopio mam rhag gweiddi a dychryn Ben y ci:

Peidio gadael lego yn gorwedd ar y llawr
Rhag ofn i dad eu sathru a dweud hen eiriau mawr!

Peidio cnoi'n ewinedd a'u poeri mas o'n ceg,
I'r rhai sy'n gorfod clirio, dyw hynny ddim yn deg.

Peidio cwato sbectol dad o dan y soffa frown,
Nac aros nes mae'n cysgu i baentio'i drwyn fel clown.



Rhoi pob papur losin yn daclus yn y bin
Rhag ofn i mam ypsetio a cholli'i 'myned prin.

Rhaid defnyddio hances i chwythu'n trwyn bob tro,
Nid llawes siwmper ysgol, neu fe fydd mam o'i cho'!

Rhaid gwneud y pethau bychain i helpu rownd y tŷ
I ddangos maint ein cariad a'n gwerthfawrogiad ni.

Dysgodd nawddsant Cymru, yr annwyl Dewi Sant
Am werth y pethau bychain cawn wneud tra'n dal yn blant.

Dewi Sant

Wrth ddilyn ei esiampl a rhoi ein ffydd yn Nuw
Cawn ddod i nabod Iesu a'i ddilyn yn ein byw.

Cawn ddarllen am ei hanes mewn Beibl yn ein hiaith,
Rhyfeddu at ei gariad a'i fawr amynedd maith.

Mawrth 1af

"Gadewch i'r plantos bychain ddyfod ataf fi,"
Oedd geiriau'r annwyl Iesu wrthych chi a mi.

Beth am i ni droi ato a'i drystio o nawr ymlaen?
Iesu Grist ein Harglwydd, yr unig gonglfaen.